Mae Mrs Jones yn byw ar stryd o dai teras. Fis Mehefin, dechreuodd ei chymdogion chwarae cerddoriaeth yn uchel yn hwyr gyda'r nos sawl gwaith yr wythnos, gan ei hatal rhag cysgu. Gofynnodd iddynt dawelu'r sŵn, ond cafodd ei hanwybyddu. Wythnos yn ddiweddarach, ffoniodd Mrs Jones yr awdurdod lleol i adrodd y sŵn. Dywedodd yr awdurdod lleol y byddai rhywun o'r tîm niwsans sŵn yn cysylltu â hi am ragor o wybodaeth. Ni chysylltodd yr awdurdod lleol â Mrs Jones a pharhaodd y broblem.

Fis Gorffennaf, aeth Mrs Jones wyneb yn wyneb â'i chymdogion eto. Y diwrnod nesaf, dychwelodd adref i ganfod sbwriel tŷ wedi'i adael yn ei gardd ffrynt. Nid oedd yn gwybod beth i'w wneud felly cliriodd y sbwriel heb ei adrodd. Parhaodd y sŵn gyda'r nos a ffoniodd Mrs Jones yr awdurdod lleol unwaith eto. Ymwelodd swyddog yr awdurdod lleol â'i chartref a gosod offer mesur sŵn. Casglodd y swyddog awdurdod lleol nad oedd y sŵn yn niwsans statudol a dweud wrth Mrs Jones na allant wneud llawer ynghylch y peth.

Parhaodd y sŵn. Ar sawl achlysur, taflodd y cymdogion wastraff i'r ardd ffrynt ac un noswaith bu iddynt daflu cerrig at ffenestr yr ystafell fyw tra'r oedd yn gwylio teledu gyda'i theulu. Roedd Mrs Jones yn teimlo dan fygythiad ac fe ffoniodd yr heddlu. Daeth swyddog yr heddlu i'r tŷ, ond nid oedd dim yn digwydd ar y pryd, felly ni chymerwyd rhagor o gamau gweithredu.

Yr wythnos ganlynol, bu'r cymdogion yn gweiddi enllibion tuag at Mrs Jones wrth iddi gerdded tuag at ei drws ffrynt. Parhaodd y sŵn yn hwyr gyda'r nos a dechreuodd deimlo'n gynyddol ofnus o'i chymdogion. Nid oedd yn gwybod i bwy y dylai adrodd y problemau hyn gan nad oedd yr awdurdod lleol a'r heddlu wedi gallu ei helpu yn y gorffennol. Clywodd am y sbardun cymunedol a phenderfynodd ei ddefnyddio.

Roedd ei hachos yn bodloni'r trothwy oherwydd ei bod wedi adrodd tri achos yn y chwe mis diwethaf. Bu i'r awdurdod lleol, yr heddlu a landlord ei chymydog adolygu'r achos a chynnal asesiad risg. Nid oedd y landlord wedi bod ynghlwm â'r achos yn flaenorol ac nid oedd yn ymwybodol bod problem yn bodoli. Dyfeisiodd y tair asiantaeth gynllun gweithredu:

- byddai'r landlord yn siarad â'i denantiaid ynglŷn â'r sŵn a'r ymddygiad, a rhoi cytundeb ymddygiad derbyniol mewn lle;
- gosododd yr awdurdod lleol offer monitro sŵn unwaith eto;
- byddai swyddog yr heddlu cymdogaeth yn ymweld â Mrs Jones i dawelu ei meddwl, a byddai swyddogion yn patrolio'r stryd yn fwy rheolaidd; a,
- chytunodd yr asiantaethau i adolygu'r achos mewn pythefnos, neu cyn hynny pe byddai angen.

Ymwelodd y darparydd tai â Mrs Jones i drafod y cynllun gweithredu. O ganlyniad i'r sbardun cymunedol, roedd y landlord yn gallu dylanwadu ar ymddygiad y tenantiaid.
Cytunodd y tenantiaid i lynu wrth y cytundeb ymddygiad derbyniol a daeth yr ymddygiad gwrthgymdeithasol i ben. Dywedwyd wrth Mrs Jones i gysylltu â'r darparydd tai petai problem yn codi yn y dyfodol.